



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymorth i rieni a help ariannol gyda chostau gofal plant

Credyd treth plant

Mae'r Credyd Treth Plant yn helpu teuluoedd sydd â phlant. Gallwch chi hawlio os ydych chi'n gweithio neu ddim. Gellir ei ddefnyddio i dalu'ch costau gofal plant, ond nid yw'n daliad arbennig ar gyfer gofal plant.

Credyd treth gwaith

Mae Credyd Treth Gwaith yn helpu pobl sy'n gweithio (cyflogedig neu hunangyflogedig) ond sydd ar incwm isel. Mae'r Credyd yn rhoi arian ar ben eu cyflog.

Elfen gofal plant y credyd treth gwaith

Gyda'r elfen gofal plant yn y Credyd Treth Gwaith, efallai y byddwch chi'n gallu cael cymorth ychwanegol gyda chostau gofal plant sydd wedi'i gofrestru neu ei gymeradwyo.

Lleoedd a gynorthwyr a chynlluniau help llaw

Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn darparu arian ychwanegol i helpu plant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol i gael gofal plant. Gall y cynlluniau hyn helpu teuluoedd ar incwm isel neu fudd-daliadau penodol hefyd, er mwyn iddyn nhw allu fforddio gofal plant o safon dda.

Lleoedd addysg gynnar ran-amser am ddim

Mae gan bob plentyn 3 a 4 oed yng Nghymru yr hawl i gael lle am ddim i dderbyn addysg gynnar ran-amser.

Bydd eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi am yr help y gallech fod â hawl i'w gael. Byddan nhw hefyd yn gallu eich cyfeirio at sefydliadau eraill a allai helpu.

www.cymru.gov.uk

Talebau gofal plant

Gall rhai cyflogwyr helpu gweithwyr drwy gynnig Talebau Gofal Plant iddyn nhw.

Help Ariannol Ychwanegol

Mae'r Credyd Treth Plant yn gallu cynnwys arian ychwanegol ar gyfer plant anabl. Mae'r Credyd Treth Gwaith yn gallu cynnwys help gyda chostau gofal plant.

Gellir hawlio Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plentyn sydd â salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol difrifol. Gellir gwneud hynny os bydd ar y plentyn, oherwydd ei salwch, angen llawer mwy o gymorth neu ofal na phlant eraill yr un oed.

Cynhaliaeth Plant

Mae newidiadau i Gynhaliaeth Plant wedi'u cyflwyno hefyd fel rhan o'r broses ehangach o ddiwygio'r system les. Mae cyngor penodol ar gyfer eich anghenion chi ar gael am ddim ar yr ap rhyngurwyd 'Sorting Out Separation'. <http://www.cmoptions.org/en/sortingoutseparation/>

Mae'r wybodaeth hon yn gywir ym mis Mawrth 2013. Bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol agos. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.

Cyllid Myfyrwyr Cymru

Gall myfyrwyr Addysg Uwch wneud cais am grant gofal plant os oes ganddyn nhw blant dibynol dan 15 oed sy'n derbyn gofal cofrestredig neu gymeradwy sy'n eu helpu i fod yn gymwys ar gyfer y grant, neu os oes ganddyn nhw blant dibynol dan 17 oed ag anghenion arbennig ac sy'n derbyn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy sy'n eu helpu i fod yn gymwys ar gyfer y grant.

Gall myfyrwyr Addysg Bellach wneud cais am gostau gofal plant o gronfa ddewisol (y Gronfa Ariannol wrth Gefn) sy'n cael ei gweinyddu gan eu sefydliad Addysg Bellach. Mae mwy o wybodaeth ar gael gan y swyddfa gymorth berthnasol yn y sefydliad.